**Comisiynydd Plant a Dysgwyr**

Fel un o dîm Comisiynu S4C byddwch yn cyd-weithio'n agos gyda'r Cyfarwyddwr Cynnwys Creadigol i weithredu strategaeth cynnwys aml-lwyfan y sianel.

Bydd gennych gyfrifoldeb arbennig dros gomisiynu a goruchwylio darpariaeth plant a dysgwyr S4C. Byddwch yn gyfrifol am gynllunio, esblygu a gweithredu strategaeth eich genre ar draws holl lwyfannau darlledu a chyhoeddi cynnwys S4C.

Byddwch yn ddolen gyswllt allweddol, adeiladol a blaenweithgar gyda'r sector gynhyrchu annibynnol. Byddwch yn atebol yn y lle cyntaf i'r Cyfarwyddwr Cynnwys Creadigol.

**Swydd-ddisgrifiad**

- Cyd-weithio yn agos gyda'r Cyfarwyddwr Cynnwys Creadigol er mwyn datblygu a gweithredu strategaeth trawslwyfannol newydd gan
  - gomisiynu cynnwys i blant o bob oed
  - ddatblygu strategaeth comisiynu a chyhoeddi aml-lwyfan i blant hŷn, 7 – 12 a 13 – 16 oed
  - gydweithio gyda'r comisiynydd drama a'r comisiynydd cynnwys ar-lein i gomisiynu syniadau drama a ffeithiol beiddgar all apelio at gynulleidfa oedolion ifanc (16- 25 oed)
  - gomisiynu brandiau gwreiddiol (S4C Originals) sydd yn gallu ennill gwobrau a chydnabyddiaeth ryngwladol
  - datblygu strategaeth comisiynu a chyhoeddi aml-lwyfan i ddysgwyr
- Datblygu a chynnal perthynas gwaith adeiladol gyda chwmnïau annibynnol er mwyn sicrhau'r gwasanaeth mwyaf creadigol a dychmygus posib
- Meithrin a datblygu partneriaethau gyda sefydliadau strategol-bwysig i S4C gan sicrhau fod cynnwys a gwaddol yn deillio o hyn
- Esblygu perthynas S4C gyda'r Young Audience Content Fund (YACF) gan arwain y sector i ddatblygu syniadau i'r gronfa yn unol â'r amcanion strategol
- Ymweld yn rheolaidd â chwmnïau cynhyrchu gan gyfathrebu'r amcanion comisiynu i'r sector greadigol a'r timau cynhyrchu, a darparu cyngor ac arweiniad yn ôl y gofyn
- Annog syniadau a chynnwys perthnasol i'ch genre a sicrhau bod y syniadau a gomisiynir yn cael eu datblygu i fod yn gynnwys o safon uchel all gael ei ddarlledu ar draws amrywiaeth o lwyfannau
- Sicrhau dealltwriaeth gref o ran cost, safon, dyddiad derbyn, hawliau a.y.b. ar draws y sector
- Bod yn gyfrifol am reolaeth ariannol a chydymffurfiaeth effeithiol ar gyfer pob prosiect byddwch yn ei gomisiynu a phrosiectau digidol ehangach ar y cyd gydag aelodau adran Materion Busnes S4C.

- Cyfathrebu a chyd-weithio gydag adrannau mewnol S4C, megis Ymchwil, Cyfathrebu, Materion Busnes a Chyllid a'r tîm Cyfreithiol

- Hybu cyfathrebu effeithiol er mwyn cyrraedd amcanion corfforaethol S4C

- Cyfrannu at drafodaethau a chyfarfodydd sydd yn ymwneud yn benodol â'ch prif gyfrifoldebau unigol ac yn fwy eang lle mae budd i S4C yn gyffredinol

- Annog diwylliant uchelgeisiol a beiddgar sy'n barod i gymryd risg

- Cynrychioli S4C mewn fforymau cyhoeddus, cynadleddau, rheithgorau a.y.b.

- Unrhyw ddyletswyddau rhesymol eraill

Yn ogystal, byddwch yn:

- Cydweithio gyda'ch cyd-aelodau staff ac eraill i sicrhau ein bod yn cyrraedd ein hamcanion corfforaethol ac yn cyflawni rhagoriaeth greadigol;

- Sicrhau ein bod yn gweithredu'n effeithiol ac yn gyson â'r ymrwymiadau statudol a strategol;

- Cyfrannu at drafodaethau a chyfarfodydd sydd yn ymwneud yn benodol â'ch prif gyfrifoldebau unigol ac yn fwy eang lle mae budd i S4C yn gyffredinol;

- Gweithio mewn modd sy'n cyd-fynd â nod S4C i ddarparu awyrgylch gwaith parchus, urddasol a diogel ar gyfer eich cyd-weithwyr;

- Er mwyn sicrhau man gwaith diogel ar gyfer staff byddwch yn gweithredu yn unol â'n Polisi Iechyd a Diogelwch ac yn gweithredu argymhellion asesiadau risg;

- Cefnogi nodau S4C mewn perthynas ag amrywiaeth, gan gynnwys anabledd, a hybu ymarfer da.

**Manyleb Person**

| Nodweddion | Hanfodol | Dymunol |
|---|---|---|
| **Profiad** | Profiad helaeth ym maes cynhyrchu rhaglenni plant / pobl ifanc ar lefel uwch<br><br>Profiad o olygu cynnwys ar lefel uchel ynghyd ag ymwybyddiaeth o faterion yn ymwneud â chydymffurfiaeth, cyllid a chyd-gynhyrchu.<br><br>Hanes profedig o weithio mewn modd trefnus ac i ymateb yn gyflym mewn amgylchedd prysur.<br><br>Profiad o gynhyrchu cynnwys arloesol ar gyfer gwahanol ddefnydd a phwrpasau<br><br>Profiad o reoli cyllidebau sylweddol. | Profiad o gomisiynu rhaglenni ar gyfer darlledwr gwasanaeth cyhoeddus.<br><br>Profiad o greu a datblygu cynnwys digidol. |

| | | |
|---|---|---|
| | Profiad o ddelio â gwybodaeth gyfrinachol a / neu ddadleuol mewn ffordd bwyllog a sensitif. | |
| **Sgiliau a Gwybodaeth** | Dawn a chrebwyll golygyddol profedig, a’r gallu i wneud penderfyniadau cadarn a chyflym.<br><br>Y gallu i fagu creadigrwydd ac i arbrofi, cymryd risgiau ystyriol a’u hyrwyddo, a dangos parodrwydd i weithio mewn ffyrdd newydd.<br><br>Sgiliau rhyngbersonol a chyfathrebu ardderchog. Y gallu i gyfleu penderfyniadau dadleuol a golygyddol heb effeithio’n negyddol ar berthnasoedd allweddol.<br><br>Dealltwriaeth gadarn o Godau OFCOM, canllawiau rheoleiddio a materion sy’n gysylltiedig â chydymffurfiaeth<br><br>Y gallu i weithio ar eich liwt eich hun yn hyderus, gan ddefnyddio crebwyll i drafod ag uwch reolwyr yn ôl y galw.<br><br>Dealltwriaeth gadarn o anghenion esblygol cynulleidfaoedd, gan gynnwys mewn perthynas â chynnwys digidol, a sicrhau bod ffurfiau newydd o gynnwys yn cael eu hystyried fel rhan o’r broses gomisiynu.<br><br>Y gallu i gyfathrebu yn rhugl yn y Gymraeg a Saesneg gyda staff ac eraill ar bob lefel, yn ysgrifenedig ac ar lafar. | |
| **Nodweddion Personol** | Y gallu i gyfathrebu gyda staff ar bob lefel.<br><br>Y gallu i wrando a derbyn adborth adeiladol a gweithredu ar syniadau da.<br><br>Y gallu i weithio mewn tîm a chynnig cyngor ac arweiniad yn ôl y gofyn.<br><br>Y gallu i weithio heb oruchwyliaeth.<br><br>Y gallu i wneud penderfyniadau cyflym a gweithredu arnynt.<br><br>Hunan gymhellol, gyda’r awydd a’r gallu i addasu a dysgu sgiliau newydd yn gyflym.<br><br>Sgiliau cyfathrebu cryf ynghyd â’r gallu i ddatgelu penderfyniadau cynhennus heb effeithio ar berthnasau allweddol. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Sgiliau rhyngbersonol cryf mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol.<br><br>Y gallu i rwydweithio o fewn y byd darlledu a thu allan.<br><br>Diddordeb brwd mewn materion Cymreig a diwydiannau teledu a chreadigol. | |

**Manylion Eraill**

**Lleoliad:** Lleoliad arferol eich gwaith fydd Canolfan S4C yr Egin, Heol y Coleg, Caerfyrddin SA31 3EQ ond disgwylir i chi deithio i le bynnag y bydd S4C yn rhesymol yn ei orchymyn.

Rydym yn annog pob cyflogai i gael cydbwysedd iach rhwng bywyd a gwaith ac yn cynnig trefniadau gweithio hyblyg, megis gweithio ystwyth, ynghyd ag ystod eang o batrymau gwaith gwahanol. Mae pob un ohonynt yn amodol ar anghenion busnes.

Oherwydd yr achosion o Coronafeirws, mae S4C wedi lleihau mynediad i'w swyddfeydd ar gyfer staff nad ydynt yn ymwneud â darlledu er mwyn sicrhau diogelwch a lles unigolion ac i ddiogelu darlledu. Felly, efallai y bydd gofyn i chi weithio o bell wrth ymuno â'r sefydliad os yw'r cyfyngiadau hyn yn dal i fod ar waith.

**Cyflog:** Yn unol â phrofiad

**Cytundeb:** 5 mlynedd

**Oriau gwaith:** 35 ¾ yr wythnos. Oherwydd natur y swydd, disgwylir hyblygrwydd, gan gynnwys gweithio tu allan i oriau swyddfa, ar rai penwythnosau a gwyliau banc.

**Cyfnod prawf:** 6 mis

**Gwyliau:** Yn ychwanegol i'r gwyliau banc statudol, bydd gennych hawl i 26 diwrnod o wyliau gyda thâl y flwyddyn.

**Pensiwn:** Mae hawl gan staff cyflogedig ymuno â Chynllun Pensiwn Personol Grŵp yn ddarostyngedig i delerau unrhyw gynllun sydd mewn bodolaeth ac a ddiwygiwyd o dro i dro. Os byddwch yn aelod o'r Cynllun Pensiwn Personol Grŵp, bydd S4C yn cyfrannu 10% o'ch cyflog sylfaenol i'r Cynllun. Disgwylir i chi gyfrannu 5%.

**Ceisiadau**

Dylid anfon ceisiadau erbyn 12.00 y prynhawn ar Ddydd Llun 19 Ebrill 2021 at adnoddau.dynol@s4c.cymru neu Adnoddau Dynol, Canolfan S4C, Yr Egin, Caerfyrddin, SA31 3EQ. Nid ydym yn derbyn CV.

**Cyfle Cyfartal ac Amrywiaeth**

Nid yw S4C yn caniatáu gwahaniaethu ar sail rhyw, hil, lliw, anabledd, cefndir ethnig neu economaidd-gymdeithasol, oedran, amgylchiadau teuluol, statws priodasol neu bartneriaeth sifil, gweithwyr amser llawn neu ran-amser, crefydd, safbwynt gwleidyddol, cyfeiriadedd rhywiol, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, defnydd ar iaith (heblaw lle bo'r gallu i gyfathrebu yn Gymraeg yn hanfodol i'r swydd) neu wahaniaeth amherthnasol arall ac mae'n ymroi i weithio gydag amrywiaeth mewn ffordd gadarnhaol.

Mae S4C yn croesawu ac yn annog ceisiadau gan grwpiau o bobl sydd wedi'u tangynrychioli, gan gynnwys grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig a phobl ag anableddau.  Bydd egwyddorion cystadleuaeth deg ac agored yn berthnasol a phenodir ar sail teilyngdod.